Abba, fe'th addolwn

Caneuon Ffydd: Rhif 53

Abba, fe'th addolwn,
ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.

Iesu, fe'th addolwn,
ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.

Ysbryd, fe'th addolwn,
ac o'th flaen ymgrymwn,
ti a garwn.

TERRYE COELHO
cyf. IDDO EF

MYFYRDOD

Er mai emyn byr iawn sydd gennym yma, dim ond deg gair yn wir, a'r cyntaf yn cael ei amrywio, yn y tri phennill, mae'r emyn yn mynd â ni at wraidd addoliad Cristnogol.

Wrth feddwl am yr hyn sy'n nodweddu addoliad Cristnogol ac yn ei wneud yn unigryw, fe gofiwn mai addoliad 'Trindodaidd' ydyw. Gwelwn y gwirionedd hwnnw'n gwawrio yn yr Eglwys Fore ac yn cael ei fynegi yn yr epistolau, neu'r llythyrau i'r eglwysi cynnar hynny. Sonnir ar ddiwedd ail lythyr Paul at y Corinthiaid (13:14), am ras ein Harglwydd Iesu Grist, cariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân. Yn eu haddoliad, fe welwn eglwysi'r Testament Newydd yn mynegi eu cred bod Duw yn Drindod o gariad, yn gymdeithas ynddo'i hun rhwng y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Mae'r tri fel ei gilydd yn destun ein mawl a'n haddoliad.

Onid oedd Iesu ei hun wrth gomisiynu ei ddisgyblion i rannu'r Newyddion Da yn destun eu haddoliad (Mth. 28:17)? Roedd disgyblion i'w gwneud o blith pobl o bob cenedl ar y

ddaear, ac i'w selio â dŵr er mwyn cydnabod eu hymlyniad wrth Iesu Grist yn agored mewn bedydd oedd i'w weinyddu gydag awdurdod y Drindod yn gyfan: 'Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân' (Mth. 28:19).

Wrth ufuddhau i'r gorchymyn hwn i fynd allan at yr holl genhedloedd mae'r disgyblion yn dod i wybod am yr awdurdod Trindodaidd sydd ganddyn nhw. Gwelant, yn enwedig ar ôl dydd y Pentecost pan ddaeth yr Ysbryd Glân arnynt a'u gwisgo â nerth, yn ôl addewid Iesu (Actau 1:8), fod yr Ysbryd yn aelod cyfartal o'r hyn oedd bellach yn cael ei alw'n 'Drindod Fendigaid', ac yn meddu ar yr un cariad, grym ac awdurdod â'r Tad a'r Mab.

Mae hyn i gyd yn eithaf dirgelwch inni fel Cristnogion, ond yn ddirgelwch, serch hynny, sydd wrth wraidd ein ffydd. Nid dirgelwch ydyw er mwyn cymhlethu meddyliau pobl gyffredin, ond dirgelwch a gafodd ei amlygu ym mhrofiadau credinwyr yr Eglwys Fore wrth iddyn nhw ddod i wybod mwy am Dduw. Wrth iddyn nhw weld bod ganddo Fab a oedd yn gyfartal ag ef, a bod yr Ysbryd Glân wedyn, sydd yn aelod cyfartal eto, yn cymryd y pethau sydd yn perthyn i'r Mab ac yn eu datguddio iddyn nhw.

Na phetruswn gynnig ein haddoliad i'r tri hyn: y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, bob yn un ac ar wahân, cyn belled â'n bod yn cofio eu bod yn gwbl gyfartal â'i gilydd oddi mewn i'r Drindod Sanctaidd. Mae'r tri yn cyflawni gwahanol swyddogaethau, ond nid oes un yn gweithredu heb gydsyniad a chymorth y ddau arall.

Cofiwn yn y gân syml hon hefyd fel y mae'r Ysbryd Glân yn ein hargyhoeddi ein bod yn blant i Dduw ac yn ein galluogi i alw Duw yn Dad neu 'Abba, Dad' (Rhuf. 8:15). Yn ein galw i addoli y Tad yn ei fawredd, y Mab yn ei ddioddefaint, yr Ysbryd yn ei nerth.

GWEDDI

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, rwy'n ymgrymu i'th addoli. Er na fedraf blymio dyfnder y dirgelwch sydd ynot, mae fy nghalon yn eiddo i ti. Gorfoleddaf yn yr hyn ydwyt ti, Trindod Fendigaid. Amen.